# Cofnodion wedi eu Cadarnhau

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | **Cyfarfod y Bwrdd (Busnes)**<br><br>**Coed y Brenin, Dolgellau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 17 Mawrth 2016 |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | Diane McCrea (Cadeirydd)<br>Madeleine Havard (Is-gadeirydd)<br>Emyr Roberts (Prif Weithredwr)<br>Ruth Hall<br>Andy Middleton<br>Paul Williams<br>Karen Balmer<br>Chris Blake<br>Howard Davies<br>Nigel Reader<br>Zoe Henderson |
| **Aelodau'r Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol:** | Clive Thomas, Cyfarwyddwr Llywodraethu<br>Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De<br>Trefor Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cenedlaethol<br>Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol<br>Tim Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r Gogledd a'r Canolbarth<br>Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio<br>Niall Reynolds, Cyfarwyddwr Portffolio Trawsnewid<br>Ashleigh Dunn, Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl<br>Catherine Smith, Cyfarwyddwr Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Geri Mills<br>Leah Edge<br>Cassandra Hamblett |

## Busnes Arferol y Bwrdd

1. Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyhoedd, aelodau'r Bwrdd ac aelodau'r Tîm Gweithredol i'r cyfarfod. Nodwyd mai hwn oedd y cyfarfod cyhoeddus cyntaf i aelodau newydd y Bwrdd a benodwyd ym mis Tachwedd 2015. Roedd y Cadeirydd yn dymuno diolch yn ffurfiol i'r Cadeirydd blaenorol ac aelodau blaenorol y Bwrdd am eu gwaith caled dros y tair blynedd diwethaf. Yn ogystal, nododd y Cadeirydd mai hwn fyddai cyfarfod olaf Trefor Owen cyn iddo ymgymryd â swydd gyda'r Comisiwn Coedwigaeth yn yr Alban; diolchwyd i Trefor am ei waith gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, a dymunodd y Bwrdd bob llwyddiant iddo yn y dyfodol.

### Ymddiheuriadau

2. Cafwyd ymddiheuriadau gan Elizabeth Haywood; nododd Andy Middleton y byddai'n gadael y cyfarfod amser cinio.

### Datgan buddiannau

3. Nododd Nigel Reader at ddiben y cyfarfod ac at ddiben Cofrestr Buddiannau'r Bwrdd ei fod bellach yn aelod o Bwyllgor Archwilio a Risg Defra, o ganlyniad i'r ffaith ei fod yn aelod o Fwrdd Natural England. Ni chafodd unrhyw fuddiannau eraill eu datgan.

## 2. Adroddiad Cyllid 2015/16

4. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ddiweddariad i'r Bwrdd ynghylch crynodeb ariannol y flwyddyn bresennol a'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn. Nodwyd mai'r gwarged tebygol i'w gario ymlaen o 2015-16 fyddai oddeutu £9 miliwn i helpu i reoli'r gyllideb lai ar gyfer 2016-17. Mae'r gwarged yn deillio o'r ffaith bod y gyllideb wedi'i rheoli yn ofalus yn ystod y flwyddyn a bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol ar ffurf taliad untro.

5. Bu Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn myfyrio ynghylch y sefyllfa gadarnhaol ar ddiwedd y flwyddyn ac ynghylch rheolaeth ariannol gadarn y Tîm Gweithredol. Cadarnhawyd y byddai aelodau'r Pwyllgor yn cael eu briffio'n fanwl ac y byddent yn adolygu'r sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin, yn rhan o'r ymarfer sy'n gysylltiedig â'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Bydd yr archwiliad diwedd blwyddyn o'r cyfrifon gan Swyddfa Archwilio Cymru yn dechrau'n fuan.

6. Bu'r Bwrdd yn trafod hyblygrwydd ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru i gario cyllid ymlaen o'r naill flwyddyn ariannol i'r llall, a'r heriau y gall hynny eu hachosi wedyn o safbwynt pennu cyllidebau. Nododd y Prif Weithredwr fod Llywodraeth Cymru wedi

darparu cadarnhad ysgrifenedig o'r hyblygrwydd estynedig i gario cyllid ymlaen, os yw'r ganran yn uwch na throthwy'r Fframwaith Llywodraethu.

7. Roedd y Cadeirydd a'r Bwrdd yn dymuno cofnodi'n ffurfiol eu diolch i'r timau rheoli am reoli'r gyllideb yn ardderchog ac am y gwaith a wnaed i gyrraedd targedau Cyfarwyddiaethau ar gyfer 'Llwyddo â Llai'.

## 3a. Cynllun Busnes a Chyllideb 2016/17 – NRW B 17.16

8. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu y papur a thynnodd sylw at y prif newidiadau i'r cynllun drafft, a oedd yn seiliedig ar yr angen iddo gyd-fynd yn well â'r Llythyr Cylch Gwaith ac ar yr adborth a gafwyd gan aelodau'r Bwrdd ac arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru. Nododd y Cadeirydd mai dyma'r Cynllun Busnes olaf a fydd yn seiliedig ar Gynllun Corfforaethol presennol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2014-17, ac y bydd angen i'r fframwaith ar gyfer y cynlluniau newydd esblygu'n sylweddol er mwyn adlewyrchu pwrpas a chyfrifoldebau newydd Cyfoeth Naturiol Cymru dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd.

9. Eglurodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol sefyllfa derfynol debygol y gyllideb ar gyfer 2016/17, a oedd yn seiliedig ar ostyngiad o 7% mewn cyllid cymorth grant gan Lywodraeth Cymru ac a oedd yn cynnwys y posibilrwydd o gael £14 miliwn o gyllid prosiect untro ar gyfer y flwyddyn. Mae £12 miliwn o'r cyllid hwnnw wedi'i gadarnhau, gan gynnwys £3.5 miliwn o gyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau rheoli perygl llifogydd. Gan gymryd y bydd y £14 miliwn llawn yn cael ei ddyrannu, bydd cyllideb agoriadol Cyfoeth Naturiol Cymru yn £178.4 miliwn a bydd cyllidebau'r Cyfarwyddiaethau yn cael eu pennu ar gyfer 1 Ebrill er mwyn sicrhau cyllideb wedi'i mantoli ar gyfer 2016/17.

10. Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg sut y gallai prosiectau megis yr Adolygiadau o Feysydd Busnes effeithio ar y cylch ariannol, a sut y byddai hynny'n cael ei reoli ar gyfer y cylch ariannol nesaf. Os ceir unrhyw effaith bellach ar gyllidebau 2017-18, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol y byddai newidiadau'n cael eu cadarnhau drwy'r Tîm Gweithredol ac y byddai'r gyllideb yn cael ei hadolygu'n gyson gan y Bwrdd llawn.

11. Trafododd y Bwrdd y lefel o uchelgais a oedd yn y Cynllun Busnes, o gymharu â maint y newid o ran ymddygiad a oedd yn ofynnol i gyflawni'r nodau llesiant. Cytunwyd mai'r adolygiad o'r Fframwaith Perfformiad fel elfen o'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2017-22 yw'r cyfle gorau i egluro'r uchelgais lefel uchel. Cytunwyd hefyd y dylai'r Cynllun Busnes adlewyrchu'n well y risgiau lefel uchel.

12. Crynhodd y Cadeirydd y drafodaeth a chymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Busnes gan ychwanegu'r risgiau lefel uchel; byddai'r sefyllfa derfynol o ran y gyllideb yn cael ei chymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

## 3b. Dangosfwrdd Corfforaethol drafft 2016/17 – NRW B 18.16

13. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu y Dangosfwrdd Corfforaethol drafft arfaethedig ar gyfer 2016/17, yng nghyd-destun penderfyniad y Bwrdd i gymeradwyo Cynllun Busnes 2016/17 y mae'r Dangosfwrdd yn seiliedig arno. Croesawyd y sesiynau Skype diweddar i gynghori aelodau newydd y Bwrdd ynghylch Fframwaith Perfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru, a chroesawyd y cyfle i adolygu'r Fframwaith er mwyn adlewyrchu'r Cynllun Corfforaethol nesaf ar gyfer 2017-22.

14. Hysbyswyd y Bwrdd bod Is-grŵp Perfformiad y Bwrdd (Nigel Reader, Ruth Hall a Madeleine Havard) eisoes wedi cynnig sylwadau defnyddiol ynghylch fersiwn gynharach o'r Dangosfwrdd.

15. Bu'r Bwrdd yn trafod y Dangosfwrdd arfaethedig gan roi'r adborth canlynol:

- Dylai'r mesurau a'r targedau 'Da i Fusnes' gael eu hadolygu er mwyn adlewyrchu'n well yr holl fusnesau sydd yng Nghymru, ac nid menter Cyfoeth Naturiol Cymru yn unig. Dylid ystyried mesurau eraill, yn ogystal â pherfformiad o ran trwyddedu, er mwyn asesu cyfraniad Cyfoeth Naturiol Cymru i 'fusnes gwyrdd'.
- Er bod llai o fesurau ar gyfer 'prosesau' ar y Dangosfwrdd arfaethedig o gymharu â 2015/16, roedd y Bwrdd yn awyddus i sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn well â chanlyniadau a'r Llythyr Cylch Gwaith.
- Awgrymwyd y dylid cael dangosydd mwy ataliol yn hytrach na dangosydd ymatebol ar gyfer iechyd planhigion.

16. Trafododd y Bwrdd bwysigrwydd y Dangosfwrdd o safbwynt cyfathrebu â rhanddeiliaid a rheoli eu disgwyliadau.

17. Cymeradwyodd y Bwrdd y fframwaith a'r Dangosfwrdd a dirprwyodd y gwaith ar fesurau a'r targedau sy'n weddill i'r Tîm Gweithredol, a fydd yn cael cymorth gan yr Is-grŵp Perfformiad. Awgrymodd y Bwrdd y dylai rôl ac aelodaeth yr is-grŵp gael eu hegluro'n rhan o'r gwaith o ddatblygu Cynllun Corfforaethol 2017-22.

***CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Llywodraethu i gwblhau Dangosfwrdd Corfforaethol 2016/17 a'i rannu â'r Bwrdd llawn.***

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

## 4. Datblygu Pobl a Thimau Cyfoeth Naturiol Cymru – Ein Strategaeth (2016-2020) – NRW B 19.16

18. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl y strategaeth i'w chymeradwyo, sy'n egluro'r amcanion a'r camau gweithredu i bobl a thimau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y 4 blynedd nesaf. Mae sylwadau blaenorol y Bwrdd ynghylch y strategaeth ddrafft wedi'u hymgorffori ac mae cyflwyniad lefel uchel wedi'i gynnwys. Mae canlyniadau Arolwg Pobl cyntaf Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2015 wedi llywio'r strategaeth, a bydd arolygon dilynol yn helpu i fonitro effeithiau ei gweithredu.

19. Cytunodd y Bwrdd fod y strategaeth yn canolbwyntio ar y camau gweithredu cywir er mwyn datblygu'r pwrpas a'r cyfeiriad, yr arweinyddiaeth a'r diwylliant i wireddu potensial llawn Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, yr her yw darganfod y ffordd orau o alluogi rheolwyr canol prysur i weithredu'r strategaeth yn ymarferol, oherwydd bydd y modd y byddant yn rheoli eu timau yn allweddol i lwyddiant.

20. Awgrymodd y Bwrdd y dylai'r strategaeth gael ei chyfleu yng nghyd-destun y newidiadau a wnaed ers yr Arolwg Pobl diwethaf, yn ogystal ag yng nghyd-destun trawsnewid Cyfoeth Naturiol Cymru yn ehangach. Cynigiodd y Cyfarwyddwr Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu y dylid cyfleu'r prif negeseuon o'r strategaeth, yn hytrach na dosbarthu'r manylion llawn gyda'r cynllun gweithredu, ac y dylid cynnwys neges gan y Prif Weithredwr.

21. Cadarnhaodd y Cadeirydd gymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer y strategaeth a'r broses ymgysylltu a oedd wedi'i defnyddio i ddatblygu'r cynnig, gan gynnwys cyfraniad y Bwrdd ac elfennau busnes. Dylai'r strategaeth gael ei chyfleu'n unol â thrafodaeth y Bwrdd, a dylid creu cysylltiadau â'r Arolwg Pobl sydd ar ddod ar gyfer 2016 yn rhan o'r broses weithredu.

***CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl a'r Cyfarwyddwr Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu i gwblhau cynllun cyfathrebu'r strategaeth gan gynnwys y pwyntiau a drafodwyd gan y Bwrdd*.**

## 5. Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol – NRW B 20.16

22. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl yr adroddiad i'r Bwrdd. Nodwyd bod dros 60% o staff Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyflwyno hunanddatgeliadau erbyn hyn, a chydnabuwyd bod hynny'n gyfradd ymateb sylweddol sy'n darparu ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth i roi hwb i ddatblygu sefydliadol. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol fod y Pwyllgor wedi ystyried ac wedi cymeradwyo'r adroddiad drafft yn ddiweddar.

23. Trafodwyd yr angen i ystyried yr ystod lawn o amrywiaeth ymhlith y staff, ac nid y sawl sydd â nodweddion gwarchodedig yn unig. Adroddwyd ynghylch gweithredu'r ymrwymiad i warantu cyfweliad i bobl ag anabledd, a chydnabuwyd bod hynny'n gam cadarnhaol tuag at sicrhau cydraddoldeb.

24. Croesawodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yr adroddiad, ond gofynnodd am i'r Crynodeb Gweithredol gael ei ailddrafftio er mwyn sicrhau ei fod yn tynnu sylw'n llawn at brif negeseuon yr adroddiad. Cytunwyd â hynny, a thrafodwyd hefyd yr angen i wella'r sylfaen dystiolaeth a'r gweithdrefnau i gynorthwyo cronfa wirfoddolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru.

25. Cymeradwyodd y Bwrdd yr adroddiad i'w gyhoeddi, o wneud y newidiadau a gynigiwyd i'r Crynodeb Gweithredol.

## 6. Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol – NRW B 21.16

26. Cyflwynwyd y papur gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio a chyflwynwyd yr adroddiad diweddaru i'r Bwrdd gan Ruth Jenkins, Pennaeth Cynllunio Adnoddau Naturiol.

27. Mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod yr Adroddiad:
    - yn darparu asesiad o gyflwr ein hadnoddau naturiol; ac
    - yn nodi'r graddau y mae rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn cael ei gyflawni.

    Canolbwyntir ar ddull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a cheir pwyslais ar ddata a fydd yn sail i bolisi yn y dyfodol. Mae hwn yn wahanol iawn i adroddiadau blaenorol ynghylch 'cyflwr', sydd wedi tueddu i ganolbwyntio ar asesiad mwy uniongyrchol o gyflwr yn hytrach nag ar asesiad o reolaeth gynaliadwy.

28. Trafodwyd yr amserlen ar gyfer llunio'r adroddiad. Bwriedir cyflwyno drafft cyntaf ym mis Ebrill er mwyn hybu ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid ynghylch y data a'r dystiolaeth, ac mae disgwyl i ddrafft cyntaf yr adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ym mis Medi 2016. Gofynnir i'r Bwrdd adolygu fersiwn derfynol yr adroddiad yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf.

29. Soniodd aelodau'r Bwrdd am yr angen am Grynodeb Gweithredol clir, gan sôn hefyd bod angen i waith ymgysylltu â rhanddeiliaid sicrhau cydbwysedd rhwng ymgynghori'n eang a rheoli disgwyliadau. Cytunwyd mai'r cydbwysedd hwn, ynghyd â'r amserlenni heriol, oedd y prif risgiau.

30. Crynhodd y Cadeirydd sefyllfa'r Bwrdd drwy dynnu sylw at natur arloesol yr adroddiad hwn yng nghyd-destun y DU, a'r gwaith sydd ynghlwm wrth lunio'r

adroddiad sy'n ofyniad deddfwriaethol allweddol. Roedd y Bwrdd yn edrych ymlaen at adolygu'r adroddiad terfynol ym mis Gorffennaf.

***CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i nodi ar Ragolwg y Bwrdd y byddai'r adroddiad, a fyddai'n agos at fod yn adroddiad terfynol, yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf.***

## 7. Diweddariad ynghylch rheoli stociau o eog a siwin – NRW B 22.16

31. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio y papur a chyflwynodd Pete Gough, y Prif Gynghorydd ynghylch Pysgodfeydd, ddiweddariad manwl i'r Bwrdd am y sylfaen dystiolaeth, penderfyniadau cynharach y Bwrdd a chamau gweithredu mwy diweddar Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill.

32. Nodwyd bod stociau o eog ar eu lefel isaf erioed a bod 40% o'r stociau a aseswyd yn cael eu hystyried yn stociau sydd 'mewn perygl' neu'n 'fwy na thebyg mewn perygl'. Nodwyd bod 56,000 o drwyddedau pysgota â gwialen yn cael eu gwerthu bob blwyddyn ar hyn o bryd, yn bennaf ar gyfer pysgota eog a siwin, ac er bod rhaglenni 'dal a rhyddhau' gwirfoddol wedi bod yn llwyddiannus nodwyd bod angen gwneud mwy i warchod stociau o eog a siwin yng Nghymru.

33. Nodwyd bod adfer cynefinoedd afonydd yn ofyniad sylfaenol, yn enwedig yng nghyd-destun y ffaith bod y newid yn yr hinsawdd yn cael effaith andwyol ar ansawdd dŵr croyw ac amgylcheddau morol. Trafodwyd yr ymdrechion diweddar i ymgysylltu â grwpiau pysgota ac ymddiriedolaethau afonydd, ynghyd â'r angen i gael trafodaeth agored a gonest ynghylch yr ystod o fesurau y mae eu hangen erbyn hyn. Bydd angen i hynny gynnwys y potensial i gyflwyno is-ddeddfau statudol a fydd yn wahanol i'r trefniadau gwirfoddol presennol.

34. Trafododd y Bwrdd effeithiau potsio ac ysglyfaethu ar stociau cyffredinol. Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod ysglyfaethu'n gallu effeithio ar lefelau stoc sydd eisoes 'mewn perygl', tra bod potsio wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf a bod ei effeithiau'n annhebygol o fod yn sylweddol. Tynnwyd sylw at y materion trawsffiniol a'r angen i weithio mewn partneriaeth yng Nghymru ac ar draws y ffin yn Lloegr.

35. I grynhoi, tynnodd y Cadeirydd sylw at yr ystod o fesurau a gynigir a nododd fod y ddealltwriaeth dda a geir o'r problemau yn galonogol, er bod sefyllfa gyffredinol stociau o eog a siwin yn peri pryder difrifol.

## 8. Adroddiad y Prif Weithredwr – NRW B 23.16 a NRW B 24.16

36. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl yr Adroddiad ynghylch Lles.

37. Tynnwyd sylw at y system newydd ar gyfer cofnodi damweiniau a digwyddiadau fu bron â digwydd, a thynnwyd sylw hefyd at y system newydd ar gyfer cofnodi salwch. Er y gwelwyd cynnydd yn nifer y digwyddiadau fu bron â digwydd yr adroddwyd yn eu cylch, nodwyd ei bod yn dal yn rhy gynnar i ddweud a oes elfen o adrodd annigonol yn bodoli mewn rhai meysydd wrth i staff ddod i arfer â'r systemau newydd.

38. Nodwyd bod Karen Balmer wedi'i phenodi yn arweinydd Lles, Iechyd a Diogelwch ar gyfer y Bwrdd, a bod Zoe Henderson wedi'i phenodi yn arweinydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae'r ddwy yn aelodau o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol er mwyn cefnogi'r rolau hyn.

39. Nododd y Prif Weithredwr yn ffurfiol fod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch cyfnod prawf Cyfoeth Naturiol Cymru, a oedd yn adroddiad cadarnhaol ar y cyfan, yn golygu bod y Gweinidog wedi cadarnhau'n ddiweddar bod y sefydliad wedi cwblhau ei gyfnod prawf. Roedd y Prif Weithredwr yn dymuno diolch i'r sefydliad cyfan am y canlyniad cadarnhaol iawn hwn. Roedd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch gwerth am arian, sef 'Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru', wedi bod yn gadarnhaol hefyd. Cadarnhaodd y Bwrdd y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn monitro'n gyson ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau.

40. Roedd y Prif Weithredwr wedi cwblhau'r sesiwn olaf ar gyfer ymgysylltu â'r staff ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd, a chadarnhawyd bod cyfanswm o oddeutu 900 o aelodau o staff wedi mynychu'r sesiynau.

## 9. Adroddiadau gan Bwyllgorau, Cofnodion a Materion yn codi

41. Cafodd cofnodion cyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr 2016 eu cymeradwyo fel cofnod cywir, cyhyd â bod sawl newid bach yn cael eu gwneud iddynt.

42. Cafodd Camau Gweithredu mis Ionawr eu hadolygu, a rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio ddiweddariad i'r Bwrdd ynghylch Cynllun Talwyr Taliadau 2016/17.

**Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol** – Paul Williams (ar lafar)

43. Cafodd cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gyflwynwyd gyda phapurau'r Bwrdd eu cadarnhau gan y Bwrdd. Yn ogystal, darparwyd crynodeb byr o agenda'r cyfarfod diweddar (3 Mawrth).

44. Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor yn ffurfiol i Ruth Hall am ei gwasanaeth i'r Pwyllgor, a chroesawodd Karen Balmer a Zoe Henderson sydd wedi'u penodi i'r Pwyllgor erbyn hyn. Roedd sesiynau ymsefydlu wedi'u trefnu, a chadarnhawyd y byddai Karen Balmer bellach yn aelod o'r Is-bwyllgor Pensiynau.

45. Roedd Cylch Cyfrifoldeb y Pwyllgor wedi'i ddiwygio ryw ychydig, ond roedd adolygiad mwy sylfaenol yn cael ei gynnig erbyn hyn er mwyn ystyried rôl y Pwyllgor o safbwynt yr agenda ar gyfer Trawsnewid ac ystyried a ddylai teitl y Pwyllgor gael ei newid er mwyn adlewyrchu ei gylch gwaith ehangach.

**Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg** – Nigel Reader (ar lafar)

46. Cafodd cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gyflwynwyd gyda phapurau'r Bwrdd eu cadarnhau gan y Bwrdd. Yn ogystal, darparwyd crynodeb byr o agenda'r cyfarfod diweddar (3 Mawrth).

47. Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ffurfiol i Andy Middleton a Madeleine Havard am eu gwasanaeth i'r Pwyllgor, a chroesawodd Karen Balmer a Chris Blake sydd wedi'u penodi i'r Pwyllgor erbyn hyn. Roedd y ddau wedi mynychu sesiynau ymsefydlu cyn eu cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor.

48. Nodwyd bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cytuno ar ffi is ar gyfer archwilio Cyfoeth Naturiol Cymru, a bod disgwyl i'r ffi barhau i ostwng.

**Rheoli Perygl Llifogydd Cymru** – Cadeirydd – Madeleine Havard (ar lafar)

49. Nododd Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd Rheoli Perygl Llifogydd Cymru y byddai cyfarfod olaf Rheoli Perygl Llifogydd Cymru yn cael ei gynnal yn Llanelwy ar 20 Mai, cyn i'r trefniadau newydd a amlinellir yn Neddf yr Amgylchedd gael eu gweithredu gan Lywodraeth Cymru.

**Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig**

50. Nid yw'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig wedi cwrdd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd.

51. Nodwyd bod y Fforwm Mynediad Cenedlaethol wedi cwrdd a bod Howard Davies bellach yn aelod.

## 10. Rhagolwg ac unrhyw fater arall

52. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu ddiweddariad ar lafar ynghylch y Rhagolwg a'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd.

53. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod elusen o'r enw Animal Aid wedi ysgrifennu at y Bwrdd yn protestio yn erbyn prydlesi saethu ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Darllenodd y Cadeirydd ddatganiad ffurfiol a anfonwyd gan y Bwrdd i Animal Aid.

54. Gwahoddodd y Cadeirydd unrhyw sylwadau eraill gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol, a chadarnhaodd sawl un ohonynt fod mynychu'r cyfarfod wedi bod yn ddefnyddiol iawn.

55. Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i'r Tîm Gweithredol, yr Ysgrifenyddiaeth a'r bobl eraill a oedd wedi cynorthwyo gyda'r trefniadau ar gyfer cyfarfod y Bwrdd.

56. Gorffennodd y Bwrdd trwy adolygu'r cyfarfod mewn sesiwn breifat.